**Cyflwynwyd yr ymateb hwn i ymchwiliad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i egwyddorion cyffredinol y Bil Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru)**

**This response was submitted to the Children, Young People and Education Committee inquiry into the general principles of the Tertiary Education and Research (Wales) Bill**

**TER 20**

**Ymateb gan: Adran Addysg Cyngor Sir Caerfyrddin**

**Response from: Carmarthenshire County Council Education Department**

---

**1. A oes gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (CTER) yr uchelgais, y cyrhaeddiad a'r gallu i arwain y gwaith o ddatblygu sector trydyddol teg a chydlynol sy'n adeiladu ar ethos Cwricwlwm Cymru sy'n canolbwyntio ar y dysgwr neu a allai hyn gael ei beryglu gan ymagwedd reolwriaethol CTER?**

1.1 Mae'r Cwricwlwm i Gymru yn newid y patrwm o system â ffocws, sy'n cael ei seilio ar ddangosyddion perfformiad ac addysg o'r brig i'r bôn, i ddull lleol sy'n canolbwyntio ar y dysgwr. Ystyrir bod gan CTER Genhadaeth Ddinesig a ddylai adlewyrchu'r ethos hwn sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ac y mae 4 diben y Cwricwlwm i Gymru yn anelu ato.

1.2 Gallai fod yn drychinebus pe gwaredid y cyd-destun 'lleol' o'r fformiwla mae'n ymddangos bod CTER yn bwriadu ei ddefnyddio ar gyfer y broses o wneud penderfyniadau o ran beth sy'n gyfystyr â darpariaeth effeithiol. Mae'n tanseilio'n llwyr y datganoli, y pwyslais lleol a'r annibyniaeth dros addysg a ddatblygir ar hyn o bryd drwy'r Cwricwlwm i Gymru. Yn wir, mae'n edrych fel bod system 'deubegynol' yn cael ei chreu. Mae'n bygwth anwybyddu'r wybodaeth leol hanfodol y mae Awdurdodau Lleol a'u hysgolion yn ei rhannu am eu dysgwyr a'u hanghenion. Gellid dadlau hefyd fod hyn yn awgrymu bod nod gwleidyddol dichellgar i danseilio rôl Awdurdodau Lleol a'u hysgolion fel darparwyr addysg drydyddol. Atgyfnerthir y goblygiad hwn drwy ddileu'r chweched dosbarth o sawl agwedd ar y ddeddfwriaeth, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud â diogelu ac ymgysylltu â dysgwyr. O ganlyniad, nid yw'n ymddangos bod gan CTER y gallu i weithredu'n gydlynol.

1.3 Yn wir, mae'n ymddangos bod risg y bydd CTER yn parhau â system o'r brig i'r bôn oni bai bod ei allu i greu 'Cytundebau Canlyniadau' yn ceisio croesawu syniadau ehangach 'gwerth' ac 'ansawdd' yn unol â'r Cwricwlwm i Gymru, ac nid yn y ffyrdd amwys y defnyddir y ddau derm hyn ym memorandwm esboniadol y Bil sy'n

awgrymu asesiad cul o'r ddau, yn seiliedig yn bennaf ar asesiad allanol, ac yn achos chweched dosbarth, yn ffurfio canlyniadau cyrchfannau UCAS. Ar lefel prifysgol mae'n rhaid i CTER fod yn ymwybodol bod ffyrdd o asesu sy'n rhoi darlun ehangach o werth dysgwyr yn symud yn gyflym, yn ogystal â'r ffordd y mae addysg a dysgu yn newid o ganlyniad i'r Cwricwlwm i Gymru.

1.4 Mae pryder cyffredinol nad oes gan CTER, na'r rhai sy'n ei gynnig yn y lle cyntaf, unrhyw ddealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd mewn ysgolion, ac yn enwedig yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn ystod y pandemig. Mae'n edrych yn debyg nad oes unrhyw syniad faint o gymorth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr ar gyfer gwneud cynnydd ac wrth benderfynu ar y camau nesaf i gyflogaeth, na faint o gymorth mae dysgwyr Addysg Uwch yn ei dderbyn mewn ysgolion o gymharu â rhai darparwyr trydyddol eraill. Mae'r pandemig wedi amlygu sut mae dysgu'n berthynol ac nid yn weithrediadol, ac mai perthnasoedd dibynadwy ar gyfer cefnogi llesiant yw sylfaen dysgu a chynnydd. Nid yw'n ymddangos bod y weledigaeth ar gyfer CTER yn cynnwys unrhyw gysyniad o 'werth' y tu hwnt i'r elfennau ariannol a chanlyniadau arholiadau allanol. Sut gall CTER ddefnyddio mesur canolog ar gyfer cynaliadwyedd ariannol a hefyd ystyried anghenion a gwahaniaethau lleol, yn enwedig anghenion chweched dosbarth a dysgwyr gwledig Cymraeg? Yn ogystal anghenion chweched dosbarth bach sy'n adeiladu ethos lleol a/neu Gymraeg a allai gael ei golli pe baent yn dod i ben?

1.5 Ymddengys mai un o brif rolau CTER yw mynd i'r afael ag anfantais ond gallai dull cul CTER o farnu gwerth wneud y broblem yn waeth drwy ystyried taw mwy o gyfleoedd galwedigaethol yw'r ateb. Y neges o'r pandemig yw mynd i'r afael ag anfantais drwy gymorth sy'n canolbwyntio ar y dysgwr a meithrin ymddiriedaeth a pherthynas â rhieni/gwarcheidwaid a rhwydweithiau cymorth y tu allan i'r ysgol: cael gwared ar y wal rhwng yr ysgol a'r gymuned. Yn wir, mae wedi bod yn glir o'r pandemig (a chyn hynny) bod gwthio dysgwyr i lwybrau'n rhy gynnar yn gallu ennyn anfantais mewn gwirionedd. At hynny, ni sicrheir tegwch drwy wthio i gyfeiriad penodol ddysgwyr y gallai eu hanfantais fod wedi gwneud llwybr cyflogaeth neu addysgol penodol yn heriol. Nod y Cwricwlwm i Gymru yw rhoi i ddysgwyr y profiadau i ddatblygu'r sgiliau a'r agwedd ar gyfer addysg a bywyd cynhyrchiol. Fodd bynnag, efallai y bydd dull CTER yn arwain at y canlyniad anfwriadol o osod dysgwyr mewn blychau yn ôl eu cefndir hyd yn oed yn fwy nag o'r blaen ac felly'n cynyddu anfantais.

1.6 Ni fydd CTER yn gyfrifol am gyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY), sy'n atgyfnerthu'r argraff na fydd yn canolbwyntio ar y dysgwr yn ei waith.

1.7 Nod CTER yw creu cronfa ddata gyffredinol o lwybrau trydyddol dysgwyr gan gynnwys llwybrau Addysg Uwch i olrhain pob dysgwr ar draws pob sector, ac felly gallu dadansoddi a gwerthuso tueddiadau a chanlyniadau. Mae angen rhannu'r

wybodaeth hon gydag Awdurdodau Lleol fel y gallant gynnal eu dadansoddiad a'u gwerthusiad eu hunain o'r llwybrau mae eu dysgwyr yn eu cymryd a pha mor effeithiol yw'r ddarpariaeth hon.

**2.A fydd CTER yn cyd-fynd yn briodol â Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol?**

2.1 Mewn ardaloedd gwledig ac arfordirol mae heriau penodol o ran cydweithio felly gall llwybrau dysgwyr fod yn gyfyngedig. Mae angen datblygu'r defnydd o gydweithio gan ddefnyddio technoleg hybrid i oresgyn hyn ar gyfer dysgwyr gwledig. At hynny, mae cynaliadwyedd mewn ardaloedd gwledig yn golygu mwy na sicrhau bod costau darpariaeth yn werth yr arian. Yn wir, diben Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yw lleihau allyriadau carbon drwy beidio â theithio'n ddiangen a chefnogi anghenion cymdeithasol, ieithyddol, diwylliannol a llesiant dysgwyr y tu allan i'r prif gytrefi yng Nghymru. Yn aml mae gan gymunedau gwledig nifer fawr o ddysgwyr Cymraeg hefyd. Mae'r sylweddoliad yn y blynyddoedd diwethaf fod cau ysgolion gwledig bach yn golled i'r gymuned, yn rhywbeth dylai CTER ei ystyried fel colled na ellir ei fesur yn  ariannol. Felly, rhaid i CTER gael cynrychiolaeth ar ei fwrdd sy'n deall anghenion dysgwyr o bob cefndir a'r heriau mae dysgwyr yn eu hwynebu mewn gwahanol leoliadau wrth benderfynu sut mae'n mesur gwerth.

2.2 Hefyd, mae gan CTER y gallu i gefnogi profiad gwaith, a gallai hyn roi cyfle i greu cronfa ddata genedlaethol gyda chyfleoedd profiad gwaith hybrid, fel y gall dysgwyr o ardaloedd gwledig, gyda chymorth, wneud profiad gwaith yn rhannol ar-lein ynghyd ag agwedd 'dinas' wyneb yn wyneb. Yn amlwg, gallai hyn weithio i'r gwrthwyneb hefyd.

2.3 Mae bwriad CTER i gynyddu cyfranogiad mewn addysg drydyddol i'w gymeradwyo. Gan fod hyrwyddo dysgu gydol oes yn rhan o'r bwriad hwn, gall y rheiny sydd dros 19 oed gael mynediad at wahanol lwybrau dysgu. Fodd bynnag, mewn ardaloedd gwledig, ysgolion â dysgwyr dan 19 oed yw'r darparwyr yn bennaf. Er mwyn cael model trydyddol cydlynol ac effeithiol ar gyfer dysgwyr gydol oes, rhaid i CTER ystyried sut y gall rhwydwaith o ddarpariaeth - unwaith eto gellid ei ddatblygu o amgylch model hybrid - gael ei roi ar waith.

**3. A fydd CTER yn sicrhau cydlyniad o ran cynrychioli ac ymgysylltu â dysgwyr?**

3.1 Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i CTER allu cael mynediad at lais y dysgwr mewn modd cydlynol a chynhwysol. Mae angen mwy nag un dysgwr ar y Comisiwn, ac, yn bwysicach, strwythur dan CTER sy'n gallu cipio llais y dysgwr mewn ffordd gynhwysol. I wneud hyn efallai fydd angen cymorth a hyfforddiant er mwyn rhoi i ddysgwyr y llais i deimlo eu bod yn gallu cyfrannu at waith CTER mewn ffordd ystyrlon.

3.2 Yn wir, mae cael gweithdrefnau diogelu ac ymgysylltu gwahanol ar gyfer chweched dosbarth a darparwyr eraill yn dangos diffyg cydlyniad. Mae'r Bil yn awgrymu mai llywodraethwyr sydd i ymateb i gwynion a wneir i'r chweched dosbarth fel rhan o weithdrefn gwynion yr ysgol. Fodd bynnag, Awdurdodau Lleol yw'r darparwr cofrestredig, a bydd yn rhaid iddynt ddelio â'r broblem os daw'r Comisiwn i'r casgliad bod unrhyw ddarpariaeth drydyddol yn anfoddhaol. Felly, byddai'n rhesymegol i awdurdod lleol oruchwylio unrhyw gŵyn. At hynny, dylai hyn ymestyn i'r holl ddysgwyr o fewn awdurdod lleol oherwydd os yw'r ddarpariaeth yn anfoddhaol mewn coleg Addysg Bellach, gall hyn fod â goblygiadau i'r dysgwyr a'r chweched dosbarth yn yr awdurdod lleol hwnnw.

3.3 Mae agwedd ar y memorandwm esboniadol sy'n broblemus (3.363) yn nodi mai 'rhieni' fydd yn gwneud y rhan fwyaf o gwynion am chweched dosbarth. Gall hyn fod yn wir (er os nad yw'n cael ei gefnogi gan ddata, mae'n awgrymu elfen o fias) ond sut, neu'n bwysicach pam, nad yw hyn yn wir ar gyfer darparwyr trydyddol 16-19 eraill? Ai oherwydd bod dysgwyr yn fwy tebygol o wneud cwynion eu hunain y tu allan i'r chweched dosbarth? Neu'n fwy priodol, efallai nad yw cwynion yn digwydd heb gymorth rhieni, ac mae llawer o ddysgwyr y tu allan i ysgolion heb lais ar hyn o bryd. Mae hyn yn atgyfnerthu'r angen i CTER chwarae rhan weithredol wrth greu strwythurau i gefnogi llais y dysgwr

3.4 Yn yr un modd, nid yw'n glir a ystyrir bod Côd Ymgysylltu â Dysgwyr yn berthnasol i bob dysgwr yn yr awdurdod lleol neu a fydd gan chweched dosbarth ffyrdd gwahanol o gyflawni hyn heblaw am ddarparwyr. Byddai hyn yn helpu i ddatblygu dull cyson os yw'r un peth i bawb ond bydd angen cydweithio a safoni dull gweithredu os yw am fod yn deg.

**4. A oes gan CTER yr uchelgais, yr adnoddau a'r gallu i gefnogi'r nod o gael miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050?**

4.1 Mae llwyddiant y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn Sir Gaerfyrddin yn golygu bod galw sydyn am ragor o lwybrau Iaith Gymraeg i bob dysgwr ar lefel drydyddol. Mae dweud y dylai CTER wneud darpariaeth 'resymol' ar gyfer darpariaeth Gymraeg yn frawychus, a heb ymrwymiad clir a chadarn i gefnogi Llwybrau Iaith Gymraeg, bydd dysgwyr yn cael eu gorfodi i ddewis llwybrau Saesneg. Yn benodol, fel hyn mae ar gyfer llwybrau galwedigaethol, a hefyd pynciau 'academaidd' lle mae prin yw'r rhifau wedi bod yn y gorffennol e.e. Ieithoedd Tramor Modern. Cydraddoldeb i'r Gymraeg dylai fod nod CTER.

4.2 Mae'r Bil yn rhoi'r pŵer i CTER ddarparu darpariaeth briodol gan gynnwys cyfleusterau ar gyfer addysg bellach, ond nid yw'r chweched dosbarth wedi'i gynnwys yn hyn. Rhaid i gymorth ar gyfer gwariant cyfalaf, boed yn adeiladau neu'n

dechnoleg hybrid, ar gyfer datblygu Llwybrau Iaith Gymraeg, gan gynnwys prentisiaethau, gael ei roi hefyd i'r chweched dosbarth, sef y brif ffynhonnell darpariaeth Gymraeg, os nad yr unig un, mewn sawl ardal.

4.3 Mae ychwanegu prentisiaethau at y chweched dosbarth yn gyffredinol yn gwneud hwn yn fater nid i ddysgwyr Cymraeg yn unig. Bydd angen meddwl yn strategol a buddsoddiad cyfalaf hefyd er mwyn darparu cymorth a gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys y Bartneriaeth Dysgu a Sgiliau Rhanbarthol, i ddarparu ffyrdd carbon gyfeillgar ac arloesol o ddilyn llwybrau galwedigaethol drwy ehangu'r ddarpariaeth chweched dosbarth, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig.

4.4 Dylai CTER hefyd sicrhau bod llwybrau Iaith Gymraeg ar gael mewn Addysg Uwch, yn cael eu datblygu ymhellach, ac yn cael eu cyfeirio at ddysgwyr mewn cyfnodau pontio priodol yn eu haddysg. Dylai hyn gael ei gefnogi gan gyfleoedd cyflogaeth yn y Gymraeg.

4.5 Er tegwch, mae'r Bil yn nodi ystod o strategaethau, o ddatblygiad athrawon/datblygiad proffesiynol ar gyfer mwy o Ddarpariaeth Addysgu Cymraeg i gefnogi cyrsiau iaith Gymraeg newydd, ond rhaid i'r ymrwymiad fod yn fwy na 'rhesymol'.

**5. A fydd gan ddefnydd CTER o bwerau i herio effeithiolrwydd y ddarpariaeth y gallu i atal unrhyw effaith negyddol ar ddysgwyr a chefnogi darpariaeth newydd?**

5.1 Ni ellir pwysleisio'n ddigonol sut y mae'n rhaid i unrhyw bryderon ynghylch darpariaeth gynnwys yr Awdurdod Lleol, chweched dosbarth yr ysgol(ion) sy'n peri pryder, a CTER mewn trafodaethau adeiladol ond di-flewyn ar dafod, a hynny cyn gynted ag y bo modd.

5.2 Rhaid cydweithio a chefnogi'r gwaith o ddatblygu a defnyddio'n effeithiol yr holl ddata a gwybodaeth ansoddol a meintiol sydd ar gael, er mwyn nodi problemau'n gynnar. Yn dilyn hyn bydd proses drylwyr o fapio, cynllunio ar gyfer, a chyflwyno'r mathau o newid sy'n ofynnol gan unrhyw ddarpariaeth anfoddhaol. Mae angen i waith i weld sut gall Awdurdodau Lleol sicrhau y gwneir newidiadau effeithiol ar gyfer gwahanol senarios, ddechrau ar lefel strategol nawr. Mae'n rhaid cael cytundeb ynghylch sut gall newid adeiladol ddigwydd.

**6. A fydd rôl Estyn a amlinellir ar gyfer addysg drydyddol yn y chweched dosbarth yn rhwystr pellach o ran cydlyniad?**

6.1 Mae dryswch yma hefyd yn rôl bosibl Estyn yn hyn o beth. Yn y gorffennol mae Estyn wedi herio, ond yn aml heb roi'r gefnogaeth i roi bod i'r newid sydd yn

angenrheidiol i wneud gwelliannau ystyrlon. Rhaid cael fforwm ar gyfer a'r adnoddau i sicrhau newid adeiladol ar draws awdurdodau ac ar y cyd â CTER.

6.2 Yn ogystal, rhaid i awdurdodau a chynghorau fod yn rhan o unrhyw bryderon ynghylch darpariaeth Addysg Bellach, gan fod ganddynt ddyletswydd i ddiogelu anghenion eu dysgwyr. Rhaid cael dull cyson gan bob darparwr trydyddol ar gyfer hyn. Gallai dileu'r ddarpariaeth fod yn drychineb tymor byr i ddysgwyr; felly, rhaid i ymyrraeth a chymorth i osgoi hyn fod yn flaenoriaeth a/neu roi trefniadau pontio addas ar waith. Mae'r 5 ffordd o weithio yn pwysleisio meddwl, atal ac integreiddio hirdymor. Rhaid i'r rhain fod yn ganolog i hyn.

**7. A oes angen ei safle ei hun ar CTER?**

7.1 Amcangyfrifir mai £18 miliwn yw cost cyflwyno CTER yn hytrach na chadw'r sefyllfa bresennol. Mae'r Bil yn nodi ei fod yn credu taw lleoliad yr adeilad a staffio yw'r prif reswm dros hyn. A allai CTER ddefnyddio cyfleusterau Addysg Ranbarthol, cyfleusterau Addysg Uwch neu gyfleusterau Awdurdod Lleol ar y cyd â gweithio hybrid ar sail rota, wrth i'w waith ymestyn i bob rhan o Gymru? Gellid canoli data heb effeithio ar waith CTER?

**Atodiad**

**Astudiaeth Achos: Cymorth Chweched Dosbarth yn ystod y Pandemig**

**Cyfweliad gyda'r pennaeth**

Mae'n amlwg bod pob oedran wedi cael ei effeithio ac yn cael ei effeithio'n andwyol gan y pandemig, nid yn unig disgyblion y chweched dosbarth. Mae'r newid o'r cynradd i'r uwchradd wedi arwain at faterion yn ymwneud ag anghenion grwpiau cyfoedion a'r ffordd y mae swigod ysgol wedi tanseilio cyfeillgarwch. Mae gwrthdaro o fewn swigod wedi dod i'r amlwg oherwydd ymdeimlad dysgwyr o unigrwydd ac anhapusrwydd, ac anghenion cymdeithasol eraill oherwydd bod trefnu'r ysgol i liniaru trosglwyddo Covid wedi achosi neu waethygu'r broblem. Mae hyn yn rhoi syniad o ddwysedd gwaith perthnasol a graddau'r cymorth i ddysgwyr. Mae'n bwysig nodi y bydd llawer o'r dysgwyr hyn yn mynd i'r chweched dosbarth tua'r adeg y bydd y CTER yn cael ei sefydlu. Mae'r pwyslais eto ar sut mae gan ysgolion a chweched dosbarth y wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfannol i gefnogi dysgwyr yn y ffyrdd sy'n canolbwyntio fwyaf ar y dysgwr.

Yn wir, mewn perthynas â'r chweched dosbarth, mae pennaeth yr ysgol wedi sylwi nad yw llawer o ddysgwyr Blwyddyn 13 wedi cael unrhyw gynllun y tu hwnt i fynd drwy Covid, ac maent yn penderfynu ar y camau nesaf pan fydd rhywfaint o 'normalrwydd' yn dychwelyd. Mae hyn er gwaethaf nifer o gyfweliadau gyda'r dysgwyr a sgyrsiau a digwyddiadau amrywiol. Yn anffodus, mae nifer sylweddol o

ddysgwyr nad oes ganddynt gymorth gartref ac a gafodd y pontio i Safon Uwch yn heriol heb fwy o amser wyneb yn wyneb gydag athrawon, wedi penderfynu mai trydedd flwyddyn yn y chweched dosbarth yw'r unig ffordd y gallent gwblhau eu holl gyrsiau.

Unwaith eto, yn ddiweddar, mae'r Pennaeth ac uwch arweinwyr eraill wedi neilltuo 3 diwrnod ar gyfer grwpiau bach o ddysgwyr yn ei swyddfa i helpu gyda Bagloriaeth Cymru, ceisiadau UCAS a gwaith pwnc-benodol arall. Ar y cyfan, nid oes gan ddysgwyr yr annibyniaeth sydd fel arfer wedi ei sgaffaldio yn y chweched dosbarth. Mae'r diffyg cyfleoedd i ddatblygu asiantaeth drwy drefnu Eisteddfodau, sioeau a digwyddiadau a chwaraeon hefyd wedi effeithio ar lefel aeddfedrwydd y dysgwyr. Mae hyn yn adlewyrchu faint mae ethos ysgol a chyfleoedd gweithgarwch allgyrsiol yn cyfrannu at genhadaeth ddinesig ac yn ennyn cymwyseddau a gwerthoedd cadarnhaol. Dangoswyd bod y syniad ehangach hwn o werth a phrofiad y tu hwnt i ganlyniad arholiadau ariannol ac allanol yn hanfodol i ddysgwr lwyddo mewn addysg a bywyd.

**Adborth o gyfweliadau gyda phenaethiaid y chweched dosbarth a dysgwyr**

Cyflwynodd pennaeth y chweched dosbarth yn ei hanfod darlun o'i dysgwyr yn ei chyfanrwydd yn dioddef straen hirdymor oherwydd y pandemig: 'y prif beth yw eu hiechyd meddwl a'u lles i fod yn onest gyda chi. Mae'n amlwg, wrth siarad ag amrywiaeth o fyfyrwyr faint maen nhw'n ei chael hi'n anodd gyda'u hiechyd meddwl'.

Dywedodd y gallai dysgwyr gael eu gwahanu'n fras naill ai i grŵp 'ymladd neu ffoi'. Mae hyn waeth beth fo cyflawniad academaidd blaenorol neu gefndir economaidd-gymdeithasol. Mae'r grŵp ‘ffoi’ wedi colli unrhyw ymdeimlad o bwrpas ac mae angen cymorth cyson arnynt i ddal i fyny, er y gall y grŵp ymladd, ac yn awyddus i gael graddau da, gael ei 'sbarduno' i ymateb i straen drwy unrhyw sôn am derfynau amser neu arholiadau: 'Mae'n rhaid i chi fod yn ofalus iawn ynghylch sut rydych chi'n dweud pethau a geirio pethau oherwydd gallech fod yn sbarduno ymateb i straen'. Cefnogwyd hyn gan gyfweliadau gyda dau grŵp o ddysgwyr y gellid eu gweld yn perthyn i'r naill gategori neu'r llall. Soniodd un yn y categori ‘ymladd’ sut y daeth ceisio gweithio gartref yn amhosibl oherwydd

'mae eich cartref fel, lle chi'n gwybod eich bod chi'n gallu ymlacio... ond yna'n ceisio gweithio o fy ystafell wely... fel pob dydd a dim ond gwneud gwaith, fel roedd yn iawn ar y dechrau... ond yn y diwedd fe aeth yn ormod, ac aeth y cymhelliant felly roedd yn union fel, o, alla i ddim gwneud hyn mwyach, ... [fe] effeithiodd arna i'n feddyliol, o’n i ddim eisiau codi o'r gwely'.

Canmolodd y dysgwr ac eraill yr ysgol am y cymorth iechyd meddwl a ddarparwyd yn ystod y cyfnod clo a oedd yn cynnwys galwadau ffôn, negeseuon ac e-byst. Mae'r

lefel hon o gymorth wedi'i hategu gyda dal i fyny wythnosol wyneb yn wyneb, hyfforddiant un i un, a chyngor ychwanegol UCAS a chyngor Gyrfaoedd ers dychwelyd i'r ysgol.

Soniodd y rhai  yn y grŵp 'ymladd' am ffug arholiadau yr oeddent am eu cael gan nad oeddent wedi sefyll arholiadau ers Blwyddyn 10 ond roedd y syniad ohono'n achosi straen. Mae'n ymddangos bod yr ymateb i'r straen hwn wedi ei gwneud yn anodd i'r grŵp 'ymladd' feddwl ymlaen. Roedd pob un wedi dyheu i astudio yn y brifysgol ond dim un wedi'i gymhwyso:' Rwy'n dal yn ansicr beth rwyf am wneud. Rwy'n gwybod fy mod am fynd i'r brifysgol a chael gradd, ond pa gwrs? .. . Dydyn ni ddim wedi cael llawer o amser i drafod y peth ac ystyried yr opsiynau a gweld beth sy'n bosib'

Mae'n amlwg bod y chweched dosbarth hwn wedi mynd i drafferthion enfawr i gefnogi eu dysgwyr. Mae gwybodaeth am bob dysgwr unigol, a'i berthynas ag ef, wedi eu galluogi i gynnig cymorth unigol i bawb. Roedd dirprwy bennaeth y chweched dosbarth yn teimlo bod y pandemig wedi amlygu pa mor bwysig oedd hyn i unrhyw waith academaidd ddigwydd. Roedd hefyd o'r farn bod y pwyslais cynyddol ar berthynas a lles yn hanfodol i helpu'r blynyddoedd i ddod yr effeithir arnynt, ac sydd heb  ymuno â'r chweched dosbarth eto, a hefyd i gefnogi y Cwricwlwm i Gymru.